Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


www.cymru.gov.uk

# Glastir

## Glastir Adfer Coetir

## Canllawiau Gwirio Planhigfeydd Ar Safleoedd Coetir Hynafol

## Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014 – 2020



# CANLLAWIAU GWIRIO PLANHIGFEYDD AR SAFLEOEDD COETIR HYNAFOL

## ADRAN 1 – CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen hon yn darparu'r gwiriadau a phedair enghraifft ar gyfer asesiadau planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol ar gyfer cynlluniau Adfer Coetir Glastir. Bydd yr asesiadau planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol hyn yn cael eu gwirio gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Bydd yr holl asesiadau planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol yn cael eu gwirio i gydymffurfio â'r canlynol:

- Adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol – canllawiau arfer gorau
- Safon Coedwigaeth y DU
- Rheolau Adfer Coetir Glastir

**Sgorio asesiadau planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol**
Mae tair sgôr ar gyfer y Meini Prawf Pwysigrwydd Ecolegol, a phedair sgôr ar gyfer y Meini Prawf Datblygiad Ecolegol, sy'n rhoi cyfanswm o saith o feini prawf sgorio. Y sgoriau ar gyfer pob maen prawf yw uchel, canolig ac isel.

Pennwyd rhif i bob sgôr – Uchel (5), Canolig (3), Isel (1). Y sgôr uchaf yw 35 (7 maen prawf x 5 sgôr uchel) a'r sgôr isaf yw 7 (7 maen prawf x 1 sgôr isel).

Mae **trothwyon sgorio** wedi'u pennu ar gyfer sgoriau uchel, canolig ac isel:
Trothwy sgôr uchel = 23 a throsodd
Trothwy sgôr ganolig = 15 a throsodd
Trothwy sgôr isel = 14 a llai

**Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol/Trwydded Torri Coed**
Cyn gwneud cais am gynllun Adfer Coetir Glastir, mae'n rhaid bod ymgeiswyr wedi derbyn Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol, trwydded torri coed gymeradwy neu rif cais am drwydded torri coed gan dîm Rheoleiddio Coedwigoedd Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n bosibl y bydd angen i ymgeisydd ymgeisio am drwydded Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop fel rhan o'r drwydded torri coed.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid**
Yn unol ag arfer da coedwigaeth 7 Safonau Coedwigaeth y DU ar gyfer Coedwigoedd a Phobl, mae'n rhaid darparu adroddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid, a dylai gynnwys cymdogion a defnyddwyr sydd â diddordeb adnabyddadwy yn y cynnig neu ganlyniadau'r safle ailstocio.

**Fforddfreintiau**
Os oes fforddfraint trydan neu wasanaethau tanddaearol trwy safle ailstocio, cyfeiriwch at ganllawiau'r cwmni cyfleustod perthnasol fel tystiolaeth ar gyfer y gwirwyr.

**Dewis rhywogaethau'r coed**
I wella gwydnwch safle ailstocio o ran gwydnwch newid hinsawdd, ystyriwch gynyddu amrywiaeth y rhywogaethau coed yng Nghymru
https://naturalresources.wales/forestry/planning-for-the-future/tree-species-choice?lang=cy

## ADRAN 2 – TYSTIOLAETH WIRIO ANGENRHEIDIOL AR GYFER CYNLLUN ADFER COETIR GLASTIR (Adran 3 cynllun Adfer Coetir Glastir)

| Ffynhonnell wybodaeth | | | | | Tystiolaeth ofynnol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion haen/safle GeoPDF cynllun Adfer Coetir Glastir** | **Disgrifiad o nodweddion haen/safle GeoPDF cynllun Adfer Coetir Glastir** | **Cyfeirnod Safonau Coedwigaeth y DU** | **Canllawiau sydd ar gael** | **Data mapio** | **Tystiolaeth cynllun rheoli** | **Tystiolaeth ychwanegol** |
| **Bioamrywiaeth : (Dynodiadau)** | SoDdGA biolegol a 300m o glustog yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) | Coedwigoedd a Bioamrywiaeth: Cyfreithiol 1; Arfer Da Coedwigoedd 4; Canllawiau Coedwigoedd 4, 5; Coedwigoedd a Dŵr: Cyfreithiol 12; Coedwigoedd a Newid Hinsawdd: Canllawiau Coedwigoedd 5; Coedwigoedd a Phridd: Canllawiau Coedwigoedd 24 | Canllawiau safleoedd dynodedig | Mapiau safleoedd dynodedig | Dilyn canllawiau Hysbysiad o Fwriad SoDdGA (a dderbyniwyd fel rhan o gais am Drwydded Torri Coed) | Trwydded Torri Coed Gymeradwy |
| **Coetir hynafol a lled-naturiol** | Data Rhestr Coedwigoedd Cenedlaethol (2011) | Coedwigoedd a Bioamrywiaeth: Cyfreithiol 1; Arfer Da Coedwigoedd 3, 4; Canllawiau – 6, 35; Coedwigoedd a Dŵr: Cyfreithiol 12 | Canllawiau Rhestr Coetir Hynafol | Data Rhestru Coetir Hynafol | Dangos nad oes niwed i goetir hynafol a lled-naturiol cyfagos fel rhan o'r gweithrediad ailstocio | Na |
| **Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol** | | | | | **Cwblhau Adran 4 cynllun Adfer Coetir Glastir os oes Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol yn bresennol** | Na |
| **Bioamrywiaeth (rhywogaethau a warchodir gan Ewrop)** | Madfallod dŵr cribog | Coedwigoedd a Bioamrywiaeth: Cyfreithiol 1; Arfer Da Coedwigoedd 3, 4; Coedwigoedd a Dŵr: Cyfreithiol 12 | Canllawiau rhywogaethau a warchodir gan Ewrop | Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol | Os oes amodau o ran rhywogaethau a warchodir gan Ewrop yn rhan o'r cais am drwydded torri coed, sicrhewch eu bod wedi'u dilyn | Trwydded torri coed gymeradwy/Cais am drwydded torri coed â rhestrau gwirio rhywogaethau a warchodir gan Ewrop/Trwydded rhywogaethau |
| | Dyfrgwn | | | | | |
| | Pathewod | | | | | |
| | Ystlumod (pob rhywogaeth) | | | | Tystiolaeth bod coed aeddfed a hen goed wedi cael eu cadw yn ystod gwaith torri coed | |

| Ffynhonnell wybodaeth | | | | | Tystiolaeth ofynnol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion haen/safle GeoPDF cynllun Adfer Coetir Glastir** | **Disgrifiad o nodweddion haen/safle GeoPDF cynllun Adfer Coetir Glastir** | **Cyfeirnod Safonau Coedwigaeth y DU** | **Canllawiau sydd ar gael** | **Data mapio** | **Tystiolaeth cynllun rheoli** | **Tystiolaeth ychwanegol** |
| | | | | | | a warchodir gan Ewrop |
| **Bioamrywiaeth (rhywogaethau Adran 7 Deddf yr Amgylchedd)** | Gwiwerod coch | | Canllawiau gwiwerod coch | Ardal graidd gwiwerod coch | O fewn ardaloedd craidd gwiwerod coch, cynyddu % sbriws Norwy a defnyddio coed dail llydan bach wedi'u hau | Na |
| **Yr amgylchedd hanesyddol** | Parciau a Gerddi: Wedi cofrestru (Cadw) | Coedwigoedd a'r Amgylchedd Hanesyddol: Arfer Da Coedwigoedd 2, 4; Canllawiau Coedwigoedd 10 | Canllawiau Parciau a Gerddi Cofrestredig | GeoPDF cynllun Adfer Coetir Glastir | Dangos ailstocio yn unol ag ymatebion i ymgynghoriad Parciau a Gerddi Cofrestredig | Atebion ymgynghoriad Cadw |

| Ffynhonnell wybodaeth | | | | | Tystiolaeth ofynnol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion haen/safle GeoPDF cynllun Adfer Coetir Glastir** | **Disgrifiad o nodweddion haen/safle GeoPDF cynllun Adfer Coetir Glastir** | **Cyfeirnod Safon Coedwigaeth y DU** | **Canllawiau sydd ar gael** | **Data mapio** | **Tystiolaeth cynllun rheoli** | **Tystiolaeth ychwanegol** |
| **Yr amgylchedd hanesyddol** | Henebion Cofrestredig | Coedwigoedd a'r Amgylchedd Hanesyddol: Cyfreithiol 1; Arfer Da Coedwigoedd 4; Canllawiau Coedwigoedd 10, 11, 20 | Canllawiau Henebion Cofrestredig yng Nghymru | GeoPDF cynllun Adfer Coetir Glastir | Dangos ailstocio yn dilyn ymateb i ymgynghoriad Henebion Cofrestredig | Ymatebion i ymgynghoriad Cadw |
| | Nodweddion yr Amgylchedd Hanesyddol | Coedwigoedd a'r Amgylchedd Hanesyddol: Arfer Da Coedwigoedd 1–5; Canllawiau Coedwigoedd 10, 17, 22 | Nodweddion yr amgylchedd hanesyddol nad ydynt yn cael eu hamddiffyn gan ddynodiad statudol | Archwilio | Os yw Nodweddion yr Amgylchedd Hanesyddol yn bresennol, ymgynghorwch ag Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru | Ateb ymgynghoriad Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru (os yw Nodweddion yr |

| Ffynhonnell wybodaeth | | | | | Tystiolaeth ofynnol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion haen/safle GeoPDF cynllun Adfer Coetir Glastir** | **Disgrifiad o nodweddion haen/safle GeoPDF cynllun Adfer Coetir Glastir** | **Cyfeirnod Safon Coedwigaeth y DU** | **Canllawiau sydd ar gael** | **Data mapio** | **Tystiolaeth cynllun rheoli** | **Tystiolaeth ychwanegol** |
| | | | | | | Amgylchedd Hanesyddol yn bresennol) |
| **Tirwedd** | Parciau Cenedlaethol (Bannau Brycheiniog, Eryri, Arfordir Sir Benfro) | Parc Cenedlaethol (a chlustog o 800m) Arfer Coedwigoedd a Thirwedd: 1–4; Canllawiau Coedwigoedd a Thirwedd: 1, 2, 4, 7 | Canllawiau Parciau Cenedlaethol: | GeoPDF cynllun Adfer Coetir Glastir | Dilynwch unrhyw ganllawiau ar dirwedd (yn arbennig ar gyfer safleoedd ailstocio mwy o faint) yn y drwydded torri coed | Trwydded torri coed gymeradwy |
| | Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (Gŵyr, Ynys Môn, Bryniau Clwyd, Dyffryn Gwy, Penrhyn Llŷn) | | Canllawiau AHNE | | | |
| **Pobl** | Hawliau tramwy cyhoeddus | Coedwigoedd a Phobl: Cyfreithiol 1, 2 | Cydymffurfio â chyfrifoldebau tirfeddianwyr hawliau tramwy cyhoeddus: | Mapiau Arolwg Ordnans | Sicrhau nad yw hawliau tramwy cyhoeddus o fewn ardaloedd ailstocio yn rhwystredig | Na |
| **Dŵr** | Dalgylchoedd sy'n sensitif i asid – dalgylchoedd sydd mewn perygl ac sy'n methu | Coedwigoedd a Dŵr: Arfer Da Coedwigoedd 11; Canllawiau Coedwigoedd 1, 2, 6 | Canllawiau dalgylchoedd sy'n sensitif i asid: | Mapiau dalgylchoedd sy'n sensitif i asid | Plannu llai na 10% o wern yng nghlustog afonol dalgylchoedd sy'n sensitif i asid. Osgoi llenwi ffosydd (a grëwyd ar gyfer pentyrru mewn safleoedd ailstocio) â malurion ffres. | Na |
| | Llynnoedd ac afonydd | Coedwigoedd a Bioamrywiaeth: Canllawiau Coedwigoedd 30, 31; Coedwigoedd a Phridd: Canllawiau Coedwigoedd 17; Coedwigoedd a Dŵr: Cyfreithiol 10; Arfer Da Coedwigoedd 5; Canllawiau | | Mapiau Arolwg Ordnans | Tabl 5.1 – Canllawiau Safon Coedwigaeth y DU o fewn clustogau afonol. Ystyried cyfleoedd i adfer gwlyptiroedd coedwigoedd o fewn ardaloedd ailstocio i gynyddu cronfeydd storio | Na |

| Ffynhonnell wybodaeth | | | | | Tystiolaeth ofynnol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion haen/safle GeoPDF cynllun Adfer Coetir Glastir** | **Disgrifiad o nodweddion haen/safle GeoPDF cynllun Adfer Coetir Glastir** | **Cyfeirnod Safon Coedwigaeth y DU** | **Canllawiau sydd ar gael** | **Data mapio** | **Tystiolaeth cynllun rheoli** | **Tystiolaeth ychwanegol** |
| | | Coedwigoedd 80, 81 | | | llifogydd ac arafu llifau llifogydd | |

## ADRAN 3 – ENGHRAIFFT O GYNLLUN ADFER COETIR GLASTIR GYDAG ASESIAD PLANHIGFEYDD AR SAFLEOEDD COETIR HYNAFOL

**Pwysig: Dim ond cynllunwyr sydd â Phlanhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol (PAWS) ddylai lenwi Adran 4.**

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod y Cwsmer (CRN)** | *A00****** |
| **Cyfeirnod y Datganiad o Diddordeb** | |

# 1. Manylion yr Eiddo

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r coetir | | *Coed Gwyn* | |
| Cyfeirnod y Safle (SRN) | | | |
| Enw cyswllt | | Statws | *perchennog* |
| E-bost | | Rhif ffôn cyswllt | |
| A ydych chi'n rheoli'r tir? | | *Ydy* | |
| Cynlluniwr rheoli | | | |
| E-bost | | Rhif ffôn cyswllt | |
| Enw a Chwmni'r Asiant (os yw'n berthnasol) | | | |
| E-bost | | Rhif ffôn cyswllt | |
| Arwynebedd o dan y cynllun Adfer Coetir Glastir (GWR) (Hectarau) | | *3.2 Hectar* | |
| Arwynebedd y Blanhigfa ar Safle Coetir Hynafol (PAWS) (Hectarau) | | *3.2 Hectar* | |
| Cyfeirnod Grid 6 ffigur (canol y llain goed sy'n cael ei thorri) | | *SH123123* | |
| Awdurdod lleol | | *Sir Ddinbych* | |
| Metrau uwchlaw lefel y môr | | *270m* | |
| A oes gennych Drwydded Cwympo Coed (Rhowch ei rhif) | | *050/16-17/172* | |
| Ydy rhestr ailstocio'r Drwydded yn rhestru'r un coed a'r un canrannau o goed ag Adran 6 (cynllun y GWR)? | | *Ydy* | |
| A oes Gorchymyn Diogelu Coed (TPO)? | | *Nac oes* | |
| A oes Trwydded Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop? | | *Nac oes* | |
| Ydych chi'n bwriadu gwneud hawliad yswiriant neu a ydych chi wedi cael taliad yswiriant am ichi golli coed oherwydd *Phytophthora Ramorum* ? | | *Nac ydw* | |

# 2. Cefndir y safle

## 2a. Amcanion rheoli

*Bydd Coed Gwyn yn parhau i gael ei reoli i gynhyrchu cyflenwad o bren ar gyfer y dyfodol gan ddefnyddio egwyddorion coedwigaeth gynaliadwy, i fwyhau bioamrywiaeth y safle ac i wella ansawdd dŵr y ffrwd trwy'r goedwig. Bydd stoc yn parhau i gael ei deol o'r goedwig.*

## 2b. Disgrifiad o'r safle

*Mae Coed Gwyn ar lethr gysgodol, sy'n wynebu'r de oddeutu 270m uwchben lefel y môr, ac mae'n safle daear frown yn bennaf. Plannwyd conifferau cymysg (llarwydd Japan, ffynidwydd Douglas, sbriws Sitka) yn adran 1a ym 1960 (adran 1a), ac mae'r adran wedi cael ei thorri dan drwydded torri coed. Mae'r goedwig gerllaw planhigfeydd conifferau tua'r gogledd a'r gorllewin, a safle coetir hynafol tua'r dwyrain. Mae adfywio rhododendronau a chonifferau gwasgaredig mynych ledled y goedwig.*

*Mae ffrwd yn rhedeg ar hyd ffin ddeheuol yr adran, ac mae hawl tramwy cyhoeddus a ddefnyddir yn aml trwy'r goedwig. Mae odyn galch wedi cael ei chofnodi ar y safle, a fydd yn cael ei deol o'r ardal ailstocio.*

## 3. Asesiad cefndirol – nodweddion Adfer Coetir Glastir (wrth ddesg ac arolwg o'r safle)

| Nodweddion a haenau GeoPDF GWR ar y safle | Disgrifiad o'r haenen Glastir yn/wrth y goedlan | A oes angen ymgynghori? | Sut ydych chi'n bwriadu delio â haenen GeoPDF GWR (yn unol ag UKFS) |
|---|---|---|---|
| **Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol** | *Mae'r goedwig o fewn AHNE Bryniau Clwyd* | *Nac oes* | *Torri coed ac ailstocio ar raddfa fach gerllaw ffrwd – bydd yn cael effaith gyfyngedig ar y dirwedd* |
| **Nodwedd yr amgylchedd hanesyddol** | *Mae odyn galch wedi'i lleoli ar hyd ffin ogleddol y goedwig* | *Ateb Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru* | *Bydd cyngor Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru yn cael ei ddilyn – dim ailstocio o fewn 5m i nodweddion archeolegol* |
| **Ffrwd** | *Mae ffrwd yn mynd trwy'r safle* | *Nac oes* | *Sicrhau bod canllawiau Coedwig a Dŵr Safonau Coedwigaeth y DU yn cael eu dilyn yn ystod y gweithrediad ailstocio* |
| **Hawl tramwy cyhoeddus** | *Mae hawl tramwy cyhoeddus trwy'r goedwig sy'n cael ei ddefnyddio'n aml* | *Nac oes* | *Sicrhau bod yr hawl tramwy cyhoeddus yn cael ei gadw ar agor ar bob amser* |
| **Ystlumod trwyn pedol llai** | *Mae ystlumod yn defnyddio coedwigoedd i chwilota am fwyd* | *Nac oes* | *Bydd coed dail llydan aeddfed a hen sy'n sefyll o fewn a gerllaw'r safle cwympedig yn cael eu cadw* |
| **Rhwydwaith Cynefinoedd Coetir** | *Mae 40% o safle Coed Gwyn yn y Rhwydwaith Cynefinoedd Coetir* | *Nac oes* | *Gwybodaeth a ddefnyddir ar gyfer sgorio'r Meini Prawf Ecolegol Posibl (Adran 4)* |

# 4. Asesiad o'r Blanhigfa ar Safle Coetir Hynafol (PAWS)

| 4a. Effeithiau posib adfer PAWS - Meini Prawf Pwysigrwydd Ecolegol (EIC) - Asesiad desg | | |
|---|---|---|
| **Haenen GeoPDF GWR** | **Disgrifiad o'r EIC yn/wrth y goedlan** | **Sgôr EIC (uchel, canolig, isel)** |
| **Dynodiadau** | *Dim SoDdGA/clustog SoDdGA yn neu gerllaw'r safle*<br>• ***Nid yw'r safle'n agos at goetir dynodedig. Ni fydd nodweddion dynodedig yn elwa ar gael eu hadfer*** | *Isel 1* |
| **Cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth** | *Coetir derw hynafol tua dwyrain y goedwig ac ar hyd y ffin ddwyreiniol; mae ystlumod trwyn pedol llai wedi'u cofnodi yn y goedwig*<br>• ***Bydd newid i fath coetir posibl yn cyfrannu'n fawr at wydnwch gwaith adfer cynefin Adran 7/rhywogaethau posibl Adran 7*** | *Uchel 5* |
| **Rhwydweithiau Cynefinoedd Coetir** | *Mae 40% o'r blanhigfa ar safle coetir hynafol mewn Rhwydwaith Sylfaenol*<br>• **Bydd adfer yn cael effaith finimol neu niwtral ar rwydwaith cynefin coetir** | *Canolig 3* |

| 4b. Meini Prawf Datblygu Ecolegol (EDC) - Arolwg o'r safle a map gyda nodiadau | | |
|---|---|---|
| **Meini Prawf Datblygu Ecolegol** | **Disgrifiad** | **Sgôr EDC (uchel, canolig, isel)** |
| **Gweddillion coed a llwyni aeddfed lled-naturiol** | *Tair gwernen aeddfed, yn arbennig ar hyd ochr llif y coridor, a dwy dderwen o fewn planhigfa ar safle coetir hynafol*<br>• **Amrediad cyfyngedig iawn o goed a llwyni brodorol** | *Isel 1* |
| **Presenoldeb coed a llwyni brodorol ar y safle adfer** | *Rhywfaint o adfer bedw, cerddin ac onn*<br>• **Rhywfaint o bosibilrwydd ar gyfer cynhyrchu hadau o rywogaethau brodorol ar neu gerllaw'r safle; niferoedd cyfyngedig o adfer uwch yn bresennol** | *Canolig 3* |
| **Presenoldeb fflora coetiroedd hynafol** | *Fflora coetiroedd hynafol achlysurol yn bresennol gan gynnwys suran y coed a chlychau'r gog, yn arbennig ar hyd ffin y blanhigfa ar safle coetir hynafol*<br>• **Rhywfaint o glytiau ar draws y safle; poblogaethau bach o un neu ddwy rywogaeth** | *Canolig 3* |
| **Cyfagosrwydd at gynefinoedd lled-naturiol eraill** | *Safle coetir hynafol tua dwyrain y blanhigfa ar safle coetir hynafol (NVC W10)*<br>• **Coetir lled-naturiol gerllaw rhai mannau o'r safle adfer** | Canolig 3 |

| **Sgôr Ecolegol Bosib** |
|---|
| 19 – **sgôr ganolig** ar gyfer adfer planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol |

| 4c. Bygythiad i PAWS - Arolwg o'r Safle a Map gyda nodiadau | |
|---|---|
| **Bygythiadau** | **Disgrifiad** |
| **Planhigion estron yn aildyfu'n naturiol** | *Ni fydd cysgodi gan blanhigfeydd sbriws Sitka cyfagos yn effeithio ar safle ailstocio’r blanhigfa ar safle coetir hynafol* |
| **Pori a brigbori, gan gynnwys gan geirw/gwiwerod** | *Adfer sbriws Sitka achlysurol* |
| **Rhywogaethau planhigion goresgynnol estron** | *Dim tystiolaeth o bori da byw yn y goedwig. Mae'r ffens ogleddol mewn cyflwr gwael a bydd angen ei newid.* |
| **Presenoldeb rhedyn a mieri** | *Aildyfu niferus rhododendronau yn 30% o'r goedwig* |
| **Gormod o gysgod** | *Mieri trechol trwy Adran 1a* |

# 5. Gweledigaeth tymor hir a gweithrediadau rheoli

| 5a. Gweledigaeth tymor hir ar gyfer ei adfer |
|---|
| *Mae'r potensial ecolegol ar gyfer Coed Gwyn yn* ***ganolig****, a bydd y safle yn cael ei ailstocio gydag isafswm o 50% o blanhigion dail llydan sy'n frodorol i'r safle (derw mes digoes, bedw gwlanog, cerddin, gwern a llwyni prennaidd). Bydd fflora daear sy'n nodweddiadol o ddail llydan cymysg iseldir, yn arbennig wrth y ffrwd a'r coetir hynafol. O fewn yr ardaloedd dail llydan, bydd adfer conifferau yn cael ei leihau a bydd yr holl goed brodorol aeddfed yn cael eu gadael i heneiddio. Ni fydd llwyni rhododendronau blodeuol o fewn ardal y blanhigfa ar safle coetir hynafol.* |

| Y Gwaith | Datganiad o fwriad | Mesur llwyddiant (mewn 10 mlynedd) |
|---|---|---|
| ***Ailstocio*** | *Bydd y safle'n cael ei ailstocio gyda >50% o goed llydanddail a <50% o gonifferau, gan ddefnyddio Gweithiau Cyfalaf Adfer Coetir Glastir 618 a 631. Bydd coed llydanddail a llwyni prennaidd (cyll, drain gwynion) yn cael eu plannu wrth y ffrwd, y safle coetir hynafol a'r hawl tramwy cyhoeddus. Bydd conifferau (sbriws Sitka, ffynidwydd Douglas) yn cael eu plannu yng ngweddill yr adran.* | *Sicrhau bod y conifferau a'r coed llydanddail wedi'u sefydlu 100% (2,500 o goed/Ha)* |
| ***Rhododendron*** | *Tynnu llwyni rhododendronau mewn 30% o'r blanhigfa ar safle coetir hynafol a sefydlu rhaglen lladd chwyn flynyddol i reoli aildyfiant* | *Dim rhododendronau blodeuol yn ardaloedd y blanhigfa ar safle coetir hynafol* |
| ***Mieri*** | *Rheoli mieri trwy gydol y blanhigfa ar safle coetir hynafol i sicrhau bod coed a llwyni'n ymsefydlu'n dda* | *Coed a llwyni'n ymsefydlu 100%, heb iddynt gael eu heffeithio gan fieri* |
| ***Cau allan da byw*** | *Bydd yr holl ffiniau'n ddiogel rhag da byw. Bydd y ffin ogleddol yn cael ei newid a bydd yn cydymffurfio â gofynion ffensio Glastir.* | *Bydd y ffensys terfyn o gwmpas y blanhigfa ar safle coetir hynafol yn cael eu gwirio o leiaf yn flynyddol i sicrhau bod amderfyn y ffin yn ddiogel rhag da byw* |
| ***Ffrwd*** | *Tynnu'r holl gonifferau (conifferau aeddfed ac adfywiad) a rhododendronau o fewn deg metr i'r ffrwd. Ailstocio gyda choed llydanddail o fewn y glustog deg metr gyda bylchau ehangach (oddeutu 2.5m o fwlch) i sicrhau mwy o gysgod brith. Mewn mannau eraill, bydd y bylchau ailstocio'n agosach i sicrhau 2,500 o goed/Ha o fewn y blanhigfa ar safle coetir hynafol* | *100% o goed llydanddail a llwyni o fewn deg metr i'r ffrwd* |
| ***Odyn galch*** | *Dim ailstocio o fewn pum metr i'r odyn galch* | *Pum metr o dir agored o gwmpas yr odyn galch* |
| ***Hawliau tramwy cyhoeddus*** | *Cynnal hawl tramwy cyhoeddus trwy'r goedwig* | *Cadw dau fetr o dir agored ar gyfer yr hawl tramwy cyhoeddus. Bydd llwyni prennaidd yn cael eu plannu gerllaw'r hawl tramwy cyhoeddus.* |
| ***Gweddillion coed llydanddail aeddfed*** | *Sicrhau bod yr holl goed llydanddail aeddfed yn cael eu cadw o fewn y blanhigfa ar safle coetir hynafol* | *Bydd coed llydanddail aeddfed yn cael eu cadw o fewn y blanhigfa ar safle coetir hynafol* |

## 6. Ymgysylltu â rhanddeiliaid

| Rhanddeiliad | Ymateb |
|---|---|
| *Mae'r hawl tramwy cyhoeddus trwy Goed Gwyn yn cael ei ddefnyddio'n fawr gan breswylwyr lleol* | *Mae'r asiant coedwigaeth wedi siarad â'r aelodau o'r cyhoedd ynglŷn â'r gweithrediad ailstocio* |
| *Mae ffermwr yn defnyddio trac trwy'r goedwig i fynd i'w gaeau* | *Mae'r asiant coedwigaeth wedi sôn wrth y ffermwr am y gweithrediad ailstocio* |

## 7. Cynllun gwaith y cynllun GWR

| Nifer Cpt. | Cyfeirnod y ddalen | Rhif y cae | Rhif y Map | Categori'r Gwaith Cyfalaf | Rhif y Gwaith Cyfalaf | Disgrifiad | Maint | PAWS |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *1a* | *SH1212* | *4567* | *GWC001* | *Ailstocio: Coed llydanddail brodorol* | *631* | *50% derw mes digoes, 20% bedw gwlanog, 10% cerddin, 10% gwern, 5% cyll, 5% drain gwynion* | *1.44Ha* | *Ydy* |
| *1a* | *SH1212* | *4567* | *GWC002* | *Ailstocio: Ailstocio sylfaenol rhwng 250m a 350m* | *618* | *50% sbriws Sitka, 20% ffynidwydd Douglas, 20% sbriws Norwy, 5% gwern, 5% derw mes digoes* | *1.76Ha* | *Ydy* |
| *1a* | *SH1212* | *4567* | *GWC003* | *Rheoli rhododendronau a llawryf <1.5m* | *663* | *Rheoli rhododendronau yn Adran 1a* | *0.96Ha* | |
| *1a* | *SH1212* | *4567* | *GWC004* | *Rheoli mieri/prysgoed – chwistrellu â llaw/chwistrellydd cefn* | *654* | *Rheoli mieri ar y safle ailstocio cyn plannu* | *3.2Ha* | |
| *1a* | *SH1212* | *4567* | *GWC005* | *Ffensys pyst a gwifrau yn ogystal â rhwydi gwifren* | *595* | *Newid y ffensys ar hyd y ffin ogleddol* | *290m* | |

# Dogfennau a gyflwynwyd i gefnogi'r cynllun hwn

| **Cynllun Adfer Coetir Glastir** | |
|---|---|
| Map GWR gyda nodiadau, yn dangos Meini Prawf Datblygu Ecolegol (e.e. coed a llwyni sy'n frodorol i'r safle, aildyfiant, coed hynafol) a bygythiadau (pori stoc, rhywogaeth oresgynnol) | Y |
| Map GeoPDF o'r gwaith a wneir o dan gontract GWR | Y |
| Caniatâd CNC o fewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) | Y |
| Ymateb CADW - hyd at 100m o heneb hynafol restredig | *Amherthnasol* |
| Trwydded cwympo coed | *Amherthnasol* |
| Hysbysiad(au) Iechyd Planhigion Statudol | Y |
| Trwydded Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop (EPS) (os oes ei hangen) | *Amherthnasol* |
| Ymatebion i'r ymgynghoriad e.e. Ymddiriedolaethau Archaeolegol | Y |

## ADRAN 4 – Enghreifftiau o asesiadau planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol gyda sgoriau uchel, canolig ac isel (Adran 4 o'r cynllun Adfer Coetir Glastir)

### Enghraifft 1 – Asesiad Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol (sgôr uchel)

7.2Ha o ffynidwydd Douglas a llarwydd Japan wedi'u teneuo'n dda (P.60) gerllaw afon y SoDdGA/ACA. 100m uwchben lefel y môr. 55% o larwydd wedi'u heidio gyda *Phytophthora ramorum*, ac mae'r perchennog wedi penderfynu torri'r ffynidwydd Douglas i lawr ar yr un pryd. Cais am drwydded torri coed gymeradwy.

| **4a. Meini Prawf Pwysigrwydd Ecolegol** | | |
|---|---|---|
| **Haenen GeoPDF GWR** | **Disgrifiad o'r EIC yn/wrth y goedlan** | **Sgôr EIC (uchel, canolig, isel)** |
| **Dynodiadau perthnasol** | *Gerllaw afon y SoDdGA/ACA*<br>• ***Bydd gwaith adfer yn cyfrannu'n sylweddol at ddiogelu a gwella'r safle dynodedig cyfagos*** | *Uchel 5* |
| **Cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth** | *Safle Coetir Hynafol tua gogledd y blanhigfa ar safle coetir hynafol; mae dyfrgwn (Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop) yn defnyddio afon y SoDdGA/ACA*<br>• ***Bydd newid i fath coetir posibl yn cyfrannu'n fawr at wydnwch gwaith adfer cynefin Adran 7/rhywogaethau posibl Adran 7*** | *Uchel 5* |
| **Rhwydweithiau Cynefinoedd Coetir** | *O fewn rhwydwaith coetir sylfaenol*<br>• ***Bydd adfer y safle yn cyfrannu'n sylweddol at y rhwydwaith cynefinoedd coetir.*** | *Uchel 5* |

| **4b. Meini Prawf Datblygu Ecolegol** | | |
|---|---|---|
| **Meini Prawf Datblygu Ecolegol** | **Disgrifiad** | **Sgôr EIC (uchel, canolig, isel)** |
| **Coed a llwyni lled-naturiol aeddfed sy'n weddill** | *Bedw, derw, cerddin aeddfed prin*<br>• **Amrediad cyfyngedig iawn o goed a llwyni brodorol** | *Isel 1* |
| **Presenoldeb coed a llwyni sy'n frodorol i'r safle sydd wedi aildyfu'n naturiol** | *Cyll niferus ac adfer celyn yn aml; bedw, onn mynych; derw achlysurol*<br>• **Rhywfaint o bosibilrwydd ar gyfer cynhyrchu hadau o rywogaethau brodorol ar neu gerllaw'r safle; niferoedd cyfyngedig o adfer uwch yn bresennol** | *Canolig 3* |
| **Presenoldeb fflora daear arbenigol coetir ar y safle** | *Marchredyn gwryw cennog niferus, clychau'r gog mynych, gwyddfid, suran y coed*<br>• ***Amrediad o glytiau cadarn o fflora arbenigol llawr y coetir ar draws y safle*** | *Uchel 5* |
| **Coetir lled naturiol o ansawdd yn ffinio â'r safle** | *Gerllaw'r safle coetir hynafol tua'r gogledd*<br>• **Coetir lled-naturiol gerllaw rhai mannau o'r safle adfer** | *Canolig 3* |

| **Sgôr Ecolegol Bosib** |
|---|
| *Cyfanswm y sgôr – 27 –* ***Sgôr uchel*** *ar gyfer adfer planhigfa ar safle coetir hynafol* |

## Enghraifft 2 – Asesiad planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol – Sgôr ganolig

Coetir Hynafol Planedig (0.60Ha) – ardal cedrwydd cochion/sbriws-hemlog y Gorllewin a dorrwyd yn 2015

| **4a. Meini Prawf Pwysigrwydd Ecolegol** | | |
|---|---|---|
| **Haenen GeoPDF GWR** | **Disgrifiad o'r EIC yn/wrth y goedlan** | **Sgôr EIC (uchel, canolig, isel)** |
| **Dynodiadau perthnasol** | *Nid yw'r blanhigfa ar safle coetir hynafol o fewn 300m i SoDdGA*<br>• ***Nid yw'r safle yn agos at goetir dynodedig. Ni fydd nodweddion dynodedig yn elwa ar gael eu hadfer*** | *Isel 1* |
| **Cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth** | *Safle Coetir Hynafol tua a dwyrain y blanhigfa ar safle coetir hynafol*<br>• ***Bydd newid i fath coetir posibl yn cyfrannu'n fawr at wydnwch gwaith adfer cynefin Adran 7/rhywogaethau posibl Adran 7*** | *Canolig 3* |
| **Rhwydweithiau Cynefinoedd Coetir** | *O fewn rhwydwaith coetir sylfaenol*<br>• ***Bydd adfer y safle yn cyfrannu'n sylweddol at y rhwydwaith cynefinoedd coetir*** | *Uchel 5* |

| **4b. Meini Prawf Datblygu Ecolegol** | | |
|---|---|---|
| **Meini Prawf Datblygu Ecolegol** | **Disgrifiad** | **Sgôr EIC (uchel, canolig, isel)** |
| **Coed a llwyni lled-naturiol aeddfed sy'n weddill** | *Coed llydanddail aeddfed prin – onn, bedw, cerddin – o fewn ardal y blanhigfa ar safle coetir hynafol*<br>• **Amrediad cyfyngedig iawn o goed a llwyni brodorol** | *Isel 1* |
| **Presenoldeb coed a llwyni sy'n frodorol i'r safle sydd wedi aildyfu'n naturiol** | *Adfer onn, bedw, cyll, cerddin mynych*<br>• **Rhywfaint o bosibilrwydd ar gyfer cynhyrchu hadau o rywogaethau brodorol ar neu gerllaw'r safle; niferoedd cyfyngedig o adfer uwch yn bresennol** | *Canolig 3* |
| **Presenoldeb fflora daear arbenigol coetir ar y safle** | *Clytiau niferus o fflora coetiroedd hynafol, gan gynnwys suran y coed ac eirinllys meinsyth*<br>• **Rhywfaint o glytiau ar draws y safle; poblogaethau bach o un neu ddwy rywogaeth** | *Canolig 3* |
| **Coetir lled naturiol o ansawdd yn ffinio â'r safle** | Coetir hynafol adferedig (NVC W11) a choetir hynafol planedig tua gogledd a dwyrain y blanhigfa ar safle coetir hynafol<br>• **Coetir lled-naturiol gerllaw rhai mannau o'r safle adfer** | Canolig 3 |

| **Sgôr Ecolegol Bosib** |
|---|
| *Cyfanswm y sgôr – 19 – **Sgôr ganolig** ar gyfer adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol* |

## Enghraifft 3 – Asesiad planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol – Sgôr isel

Coetir hynafol planedig (1.2Ha) – ardal o larwydd Japan/sbriws Sitka/pinwydd camfrig P.70 nad ydynt wedi'u teneuo, gerllaw ffordd y cyngor tua'r gogledd a ffrwd tua'r de. Fel arall, wedi'i amgylchynu gan laswelltir gwell.

| **4a. Meini Prawf Pwysigrwydd Ecolegol** | | |
|---|---|---|
| **Haenen GeoPDF GWR** | **Disgrifiad o'r EIC yn/wrth y goedlan** | **Sgôr EIC (uchel, canolig, isel)** |
| **Dynodiadau perthnasol** | *Nid yw'r blanhigfa ar safle coetir hynafol o fewn 300m i SoDdGA*<br>• ***Nid yw'r safle'n agos at goetir dynodedig. Ni fydd nodweddion dynodedig yn elwa ar gael eu hadfer*** | *Isel 1* |
| **Cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth** | *Gerllaw glaswelltir gwell, ffrwd ac isffordd y cyngor.*<br>• **Ni fydd math coetir posibl yn cyfrannu at adfer cynefin Adran 7. Mae'r safle'n arunig; nid yw nodweddion gweddilliol ar gael i ddangos aliniad â chynefinoedd blaenoriaeth** | *Isel 1* |
| **Rhwydweithiau Cynefinoedd Coetir** | *Nid yw o fewn rhwydwaith sylfaenol neu eilaidd*<br>• **Mae'r safle'n arunig, ac ni fydd adfer yn gwella cysylltedd.** | *Isel 1* |

| **4b. Meini Prawf Datblygu Ecolegol** | | |
|---|---|---|
| **Meini Prawf Datblygu Ecolegol** | **Disgrifiad** | **Sgôr EIC (uchel, canolig, isel)** |
| **Coed a llwyni lled-naturiol aeddfed sy'n weddill** | *Coed aeddfed achlysurol – derw aeddfed ar hyd ffin y coetir, a gwern, onn a helyg aeddfed wedi'u gwasgaru wrth y ffrwd*<br>• **Coed gweddilliol ar ddwysedd isel** | *Canolig 3* |
| **Presenoldeb coed a llwyni sy'n frodorol i'r safle sydd wedi aildyfu'n naturiol** | *Adfer coed a llwyni prin*<br>• **Mae'r posibilrwydd i gynhyrchu hadau o rywogaethau brodorol yn gyfyngedig; nid oes adfer uwch yn bresennol** | *Isel 1* |
| **Presenoldeb fflora daear arbenigol coetir ar y safle** | *Rhywfaint o fflora coetiroedd hynafol yn bresennol wrth y ffrwd, gan gynnwys bresych y cŵn, marddanadl melyn a suran y coed*<br>• **Rhywfaint o glytiau ar draws y safle; poblogaethau bach o un neu ddwy rywogaeth** | *Canolig 3* |
| **Coetir lled naturiol o ansawdd yn ffinio â'r safle** | *Dim safleoedd coetir hynafol cyfagos gerllaw'r blanhigfa ar safle coetir hynafol*<br>• **Dim coetir lled-naturiol gerllaw'r safle adfer** | Isel 1 |

| **Sgôr Ecolegol Bosib** |
|---|
| *11 – **Sgôr isel** ar gyfer adfer planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol* |